# BE THE WAVE
# AR FRIG Y DON

# Sbwriel Morol

Gwybodaeth Gefndirol



cadwch keep gymru'n wales daclus tidy

MARINE CONSERVATION SOCIETY

UNDEB EWROPEAIDD EUROPEAN UNION
Llywodraeth Cymru Welsh Government
Cronfeydd Strwythurol a Buddsoddi Ewropeaidd
European Structural and Investment Funds

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Diffinnir sbwriel fel gwastraff yn y lle anghywir. Gellir dod o hyd i sbwriel ar diroedd ein hysgolion, ar balmentydd, traethau ac yn ein parciau. Gall sbwriel amrywio o eitemau bach fel bonion sigarét a gwm cnoi i fagiau plastig, poteli a chaniau.

Mae'r rhan fwyaf o sbwriel yn deillio o bobl yn ei daflu - naill ai ar bwrpas neu ar ddamwain - er bod rhai sbwriel yn dod o ffynonellau eraill, er enghraifft drwy gael ei chwythu gan y gwynt, neu ollyngiad gwastraff domestig.

Mae'r prif fathau o sbwriel yn ymwneud ag ysmygu, melysion, diodydd a bwyd cyflym.

Mae sbwriel yn achosi niwed sylweddol i'n bywyd gwyllt a'n hamgylchedd. Mae'r effeithiau fel arfer yn para'n hir ac yn ymestyn ymhell y tu hwnt i darddiad y broblem. Mae bygythiadau i fywyd gwyllt o sbwriel yn cynnwys anifeiliaid yn mynd ynghlwm ynddo a all arwain at newyn, camgymryd sbwriel am fwyd, anafiadau a gwenwyn bwyd. Gall sbwriel ar ein strydoedd wneud ei ffordd yn y pendraw i ddyfrffyrdd a'r amgylchedd morol. Amcangyfrifwyd bod tua 80% o sbwriel morol yn dod o ffynonellau ar y tir ac mae'r 20% arall yn dod o ffynonellau ar y môr.

Mae'r Cenhedloedd Unedig yn diffinio sbwriel morol fel 'unrhyw ddeunydd solet parhaus, sydd wedi'i weithgynhyrchu neu'i brosesu, ei waredu, neu ei adael yn yr amgylchedd morol ac arfordirol.

Deunyddiau cyffredin sy'n ffurfio sbwriel morol a ddangosir yma yn cynnwys plastigau, rwber, papur, metel, pren, gwydr a defnydd. Un ffordd o ddosbarthu sbwriel morol yw wrth y math o weithgaredd a'i cynhyrchodd yn y lle cyntaf. Er enghraifft, pysgota, llongau, dympio anghyfreithlon neu ysmygu. Gall eitemau sbwriel hefyd fod yn wahanol o ran eu heffaith bosibl ar yr amgylchedd a bywyd gwyllt, gyda rhai yn fwy niweidiol nag eraill.

## Problemau Sbwriel Morol

Mae sbwriel morol wedi'i ganfod ym mhobman yn y cefnforoedd, o'r dŵr wyneb i'r ffosydd cefnforol dyfnaf, o eithafion pegynol i riffiau cwrel trofannol. Mae tystiolaeth gynyddol bod y broblem yn ymestyn i afonydd ac ardaloedd dŵr croyw hefyd, gan wneud hyn yn fater gwirioneddol fyd-eang gyda goblygiadau pellgyrhaeddol.

Mae sbwriel sy'n ysgafn ac yn cael ei chwythu gan y gwynt yn fwy tebygol o gyrraedd y môr. Nid yw pob darn o sbwriel yn aros ar wyneb y dŵr a bydd rhai darnau yn suddo o'r golwg. Bydd maint sbwriel morol yn amrywio, bydd rhai darnau yn weladwy i lygaid dynol a bydd eraill prin yn weladwy neu hyd yn oed yn anweledig.

Gall materion sbwriel morol achosi colledion economaidd difrifol. Mae cymunedau arfordirol yn wynebu costau cynyddol o lanhau traethau, iechyd y cyhoedd a gwaredu gwastraff. Mae'n rhaid i'r sector twristaidd ymdopi â cholli incwm a chyhoeddusrwydd gwael. Mae'r diwydiant llongau yn cael ei effeithio'n fwy gan gostau uchel yn ymwneud â difrod i longau, gwaredi sbwriel a rheoli gwastraff mewn porthladdoedd. Mae'r diwydiant pysgota yn wynebu problemau megis llai o bysgod yn cael eu dal neu hyd yn oed dim pysgod o gwbl yn cael eu dal, rhwydi ac offer pysgota sydd wedi'u difrodi, difrod i gychod a halogiad. Mae'r problemau hyn yn effeithio ar ffermydd pysgod a dyframaeth arfordirol hefyd. (Cynulliad Amgylchedd y Cenhedloedd Unedig)

Gyda'i gilydd, mae'r twf parhaus o wastraff solet sy'n cael ei daflu a'r gyfradd araf iawn y mae'r rhan fwyaf o eitemau yn diraddio, yn arwain at gynnydd graddol o sbwriel morol yn y môr, ar lawr y môr ac ar lannau'r arfordir. Mae'n broblem economaidd, amgylcheddol, iechyd dynol ac esthetig sy'n creu her gymhleth ac aml-dimensiwn.

Mae sbwriel yn broblem symudol sy'n newid trwy'r amser sy'n her i'w fesur a'i gofnodi'n gywir. Mae hyn yn arbennig o gymhleth yn yr amgylchedd morol lle mae ffactorau llanw, cerrynt tywydd a phoblogaethau ymwelwyr sy'n newid yn barhaus yn effeithio ar sbwriel.

Oherwydd lleoliad Cymru, mae llygredd a sbwriel yn cael eu cario pellteroedd mawr i'n glannau gan Ddrifft Gogledd yr Iwerydd sy'n golygu ei bod hi bron yn amhosibl darganfod ffynonellau'r llygredd a'r sbwriel hyn.

Mae sbwriel morol yn dueddol o gronni mewn ardaloedd o'r enw cylchgeryntau cefnforol. Cerrynt cylchol cefnforol yw cylchgerrynt sy'n cael ei ffurfio gan batrymau gwynt y Ddaear a'r grymoedd sydd wedi'u creu gan gylchdroeon y blaned. Mae sbwriel yn cael ei dynnu i mewn gan symudiad cylchol cylchgerrynt ac mae'n cael ei faglu yn y canol lle mae fel arfer yn dawel ac yn ddi-sigl. Nid oes neb yn gwybod faint yn union o sbwriel morol sydd yn y cefnforoedd. Mae cylchgeryntau cefnforol yn rhy fawr i wyddonwyr eu mesur neu sefydliadau glirio'r sbwriel yno. Gweler gwybodaeth ar y cylchgerrynt yng Ngogledd y Cefnfor Tawel o Lyfrgell Adnoddau Addysg Ddaearyddol Genedlaethol.

**Am ba hyd y mae sbwriel morol yn para?**

Bydd yr amser mae'n cymryd i ddeunyddiau ddiraddio yn amrywiol gan ddibynnu ar amodau megis tymheredd, lleithder, ocsigen ac yn y blaen. Bydd rhai deunyddiau yn pydru (cael eu bio-ddiraddio gan ficro-organebau), gall eraill megis plastig ffoto-ddiraddio (cael ei ddiraddio gan olau uwchfioled), tra gall eraill ddiraddio'n ddarnau microsgopig llai.

Edrychwch ar y Llinell Amser Gwastraff a Chynllun Gwers Ysbwriel Parhaol Cyfoeth Naturiol Cymru. *Our World in Data* yn cyflwyno graff dadelfeniad.

cadwch keep
gymru'n wales
daclus tidy

33-35 Heol yr Eglwys Gadeiriol, Caerdydd, CF11 9HB | 33-35 Cathedral Rd, Cardiff, CF11 9HB
029 2025 6767 keepwalestidy.cymru info@keepwalestidy.cymru

Cadwch Gymru'n Daclus yn gwmni wedi ei gyfyngu trwy warant. Rhif Cwmni: 4011164 Rhif Elusen: 1082058 Rhif TAW: 850 3958 13
Keep Wales Tidy is a Company Limited by Guarantee. Company Registration Number: 4011164 Charity Registration Number: 1082058 VAT Registration Number: 850 3958 13